Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:	08 Mehefin 2007
Amser	10:00 - 13:00
Lleoliad:	Neuadd Craflwyn, Nantgwynant, Beddgelert

Yn bresennol

<u>Cynrychiolwyr y Sector Preifat</u>		
Dewi Lewis	*Cadeirydd*	Siop Dewi
Tim Knight		British Nuclear Group
Peter Clarke		TUC Cymru
Gwynedd Watkin		Undeb Amaethwyr Cymru
Evie Wyn Jones	(*Dirprwyo)*	Busnes Eryri Cyf.
John Alan Morris	(*Dirprwyo)*	J. Morris
Sian M. Williams	(*Dirprwyo)*	Griffith Williams a'i Gwmni
<u>Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol</u>		
Neb yn bresennol		
<u>Cynrychiolwyr y Sector Cymunedol</u>		
Y Tad Deiniol		Yn Ein Blaenau
Godfrey Northam		Cyngor Cymuned Bethesda (ar ran Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngwynedd)
Llŷr Huws Gruffydd		Menter a Busnes
Dyfed Edwards		Antur Nantlle
Keneuoe Morgan	(*Dirprwyo)*	Antur Penllyn
Chris Wright	(*Dirprwyo)*	Snowdonia Active
<u>Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus</u>		
Dafydd Iwan		Cyngor Gwynedd
Eiddwen Borland		Canolfan Byd Gwaith

<u>Ymgynghorwyr</u>	
Ruth Bacigalupo	Adran Menter, Arloesedd a Rhwydweithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jan Jones	Adran Menter, Arloesedd a Rhwydweithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ieuan Ellis	Adran Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru
<u>Swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth (Cyngor Gwynedd)</u>	
Sioned Williams	Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Dylan Griffiths	Swyddog Ariannu a Chynllunio Strategol
Vivienne Pritchard	Swyddog Ewrop
Colin Morris	Uwch Swyddog Cefnogi Busnes
Nia Swann	Swyddog Datblygu Llwyddo'n Lleol
Esyllt Rhys Jones	Uwch Swyddog Adfywio Strategol
<u>Gwahoddedigion</u>	
Dr. David Joyner	Prifysgol Cymru, Bangor
Keith Robertson	Llywodraeth Cynulliad Cymru

RHAN UN: MATERION BUSNES

01 Ymddiheuriadau

Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth: Geraint Parry (Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru), Sian Hope (Prifysgol Cymru, Bangor), Emyr Williams (Parc Cenedlaethol Eryri), Catrin Lloyd Jones (Coleg Harlech AAC), Ann Lloyd Jones (Twristiaeth Canolbarth Cymru), Trefor Jones (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Ffiona Williams (Gyrfa Cymru), Menna Jones (Antur Waunfawr), Iwan T. Jones (Cyngor Gwynedd), Ann Rubij (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Keith O'Brien (Parc Cenedlaethol Eryri), Wendy Crisp (Yr Hwylfan) a Sarah Finnegan-Dehn (Gyrfa Cymru).

Llongyfarchodd aelodau'r Pwyllgor Llywio Catrin Lloyd Jones, Coleg Harlech ar ei phriodas heddiw.

02 Datganiadau o ddiddordeb personol

DIM

03 Cofnodion y cyfarfod 20 Ebrill Chwefror 2007

Diwygio a Chadarnhau – gweler 08. UFA

Unrhyw fusnes nad yw'n ymddangos ar y rhaglen

Trafodaeth:

Ni chofnodwyd yr un

Casgliadau:

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir

Tasgau:

Dim

04 Ethol Is-gadeirydd i'r Bartneriaeth

Trafodaeth:

i) Nodwyd o gofnodion y cyfarfod ar 20 Ebrill 2007 y byddai aelodau'n ystyriedenwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd yn y cyfarfod hwn.

Ni fynelwyd unrhyw enwebiadau gan yr aelodau bresenol, on adroddwyd bod Menna Jones, Antur Waunfawr, cynrychiolydd y Sector Gwirfoddol wedi mynegi y byddai'n fodlon ymgymryd a'r swydd petai neb arall yn awyddus Ystyriwyd yr enwebiad, cafodd ei gynnig gan Dyfed Edwards a'i eilio gan Gwynedd Watkin.

Casgliadau:

ii) **Cytunodd** y Grŵp Llywio i ethol Menna Jones yn Is-gadeirydd y Bartneriaeth

Tasgau:

a) Hysbysu Menna Jones am benderfyniad y Grŵp Llywio.
Ysgrifenyddiaeth cyn gynted â phosib

05. Is-grŵpiau'r Bartneriaeth

Trafodaeth: Llwyddo'n Lleol

i). Nodwyd na fu'r cais i'r gystadleuaeth 'Prydain Fentrus' yn llwyddiannus.

ii). Nodwyd llwyddiant digwyddiad 'Dragon's Den'. Roedd nifer o grwpiau wedi cymryd rhan a'r grŵp buddugol oedd Clwb Ffermwyr Ieuainc Sarnau gydag Ysgol Eifionnydd yn ail.

iii). Nodwyd y cynhaliwyd trafodaethau gydag aelodau Grŵp Llywio Sgiliau a Mentergarwch Gogledd-orllewin Cymru i edrych ar y cyfleon i ymestyn y prosiect Llwyddo'n Lleol ar draws Gogledd-orllewin Cymru.

iv) Yn sgil cais a wnaed yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio adroddwyd ar ddeilliannau rhaglen 2006 /07. Nodwyd y byddid yn adrodd ymhellach i'r Grŵp Llywio yn chwarterol ar y sefyllfa yng nghyswllt bwrw ymlaen gyda thargedau.

v) Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp Llywio am ganlyniadau cyfarfodydd y grŵp ffocws ac anfonwyd yr adroddiad at aelodau gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Nodwyd y sylwadau a ganlyn:

- angen ymdrech wrth ddenu pobl ifanc i weithio yn y sector awyr agored - sector sy'n tyfu
- angen gweithio ar ailaddysgu er mwyn newid y ffordd yr edrychir ar gyfleon yng Ngwynedd
- Codwyd pryderon ynghylch llwyddiant y cynllun Llwybro gan ei fod yn ymddangos o'r adroddiad nad yw pobl ifanc yn edrych ar y wefan.
- Cytunwyd bod y canfyddiadau yn yr adroddiad yn fan cychwyn defnyddiol wrth adnabod rhaglen waith, fyddai'n rhoi cyfeiriad i gamau gweithredol yr oedd yn rhaid eu cymryd.

Trafodaeth: Cefnogi Busnes

vi). Adroddiad llafar Colin Morris. Nodwyd y bu'r arian Amcan 1 ychwanegol a dynnwyd i lawr yn llwyddiannus yn cefnogi busnesau, nodwyd y bydda'r Pecyn Datblygu Busnesau Gwynedd yn cau yn fuan ac na fyddai arian ar gael i gefnogi busnesau lleol o ganlyniad.

vi). Adroddwyd bod £1.3m wedi'i ryddhau mewn grantiau ers 2003 i 462 o fusnesau yng Ngwynedd.

vii). Nodwyd y cynhaliwyd 27 o ddigwyddiadau yn ystod Wythnos Busnes Gwynedd (21 – 25 Mai). Cafodd dros 6,500 o raglenni eu dosbarthu, daeth 200 o bobl i Noson Wobrwyo Busnesau gyda'r deuddeg categori wedi denu 71 cais o bob rhan o Wynedd. Roedd adroddiad ar yr Wythnos Busnes yn cael ei baratoi. Nodwyd llwyddiant yr wythnos, yn enwedig felly wrth ddangos yr hyn oedd yn digwydd yng Ngwynedd a'r hyn oedd yn bosib. Trafodwyd y bwriad o broffilio'r deuddeg a gafodd wobr, un bob mis er mwyn tanlinellu llwyddiant lleol trwy gydol y flwyddyn.

viii). Cyfeiriodd Godfrey Northam at lun Hywel Williams yn rhaglen Wythnos Busnes Gwynedd. Eglurwyd bod asiantaethau a sefydliadau yng Ngwynedd yn cael gwahoddiad i gynnal digwyddiad ac nad oedd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am drefnu'r lleol y digwyddiadau. Cydnabodd Cyngor Gwynedd na ddylai'r llun fod wedi ymddangos gan ymddiheuro.

ix). Nodwyd bod Ioan Thomas wedi'i ethol yn Gadeirydd Is-grŵp Busnes PEG am y deuddeng mis nesaf. Nodwyd bod aelodau'r is-grŵp wedi derbyn adroddiad gan Lywodraeth y Cynulliad ar adolygiad a gwblhawyd i gefnogi busnes yng Ngwynedd (contract Cefnogaeth Gyffredinol i Fusnesau). Ymhlith canlyniadau'r adolygiad roedd: 428 o bobl wedi derbyn gwybodaeth, cyngor neu gefnogaeth; 93 o fusnesau wedi'u sefydlu; 488 o fusnesau oedd wedi ennill eu plwyf wedi derbyn gwybodaeth, cefnogaeth neu gyngor; 167 o swyddi wedi'u creu a 104 o swyddi wedi'u diogelu. Adroddwyd fod yr adroddiad ar gael ar cais.

x). Nodwyd bod £12m mewn grantiau twristiaeth wedi'u rhyddhau i fusnesau Gwynedd yn y deng mlynedd diwethaf gan arwain at greu 930 o swyddi a denu £58.5m o fuddsodiad i'r sector preifat.

xi). Nodwyd cais i ragor o gynrychiolwyr sector breifat y Grŵp Llywio fynychu cyfarfodydd yr Is-grŵp Busnes.

xii). Nodwyd bod gwybodaeth am y rhaglen Cymorth Rhanbarthol Dewisol wedi'i derbyn ddiwrnod cyn y cyfarfod.

Trafodaeth: Sgiliau

xiii). Adroddiad llafar Sioned Williams. Nodwyd bod cynllun busnes peilot canolfan sgiliau galwedigaethol Meirion / Dwyfor yn cael ei ystyried gan yr Is-grŵp ac y byddai Sian Lloyd Roberts yn adrodd ar ddatblygiadau yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio.

xiv). Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo ar yr Academi Sgiliau Niwcliar mewn cydweithrediad gyda Chyngor Sir Ynys Môn, gan edrych ar y berthynas rhwng Trawsfynydd a'r Wylfa a sgiliau peirianyddol yn y sector sgiliau galwedigaethol.

xv). Nodwyd bod gwaith yn parhau gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i asesu anghenion a chyfleon cyflogaeth y datblygiadau oedd yn mynd rhagddynt ym Mangor a Chaernarfon yn y sector mân-werthu i sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael.

xvi). Nodwyd pwysigrwydd dod â chynhyrchwyr lleol mewn cysylltiad gyda mân-werthwyr yng Ngwynedd a chafodd aelodau'r Grŵp Llywio eu hatgoffa mai hwn oedd un o'r prif flaenoriaethau a nodwyd yng nghais Gwynedd i'r Rhaglen Datblygu Gwledig.
Trafodaeth: Datblygiad Gwledig

xvii). Adroddwyd bod disgwyl gwybodaeth ar y Strategaeth Datblygu Lleol ac i'r Arweiniad i'r Cynllun Busnes fod ar gael cyn diwedd mis Mehefin.

Trafodaeth: Adfywio Cymunedol
Dim

Casgliadau:

xviii) Byddai aelodau'n cael gwybod am ddatblygiad y rhaglen waith Llwyddo'n Lleol yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio.

xix) Nodwyd y ceid trafodaeth lawn bellach yng Ngrŵp Llywio PEG ym mis Medi ar ddyfodol y pecyn grantiau / cymysgedd o becynnau i gefnogi busnes yng Ngwynedd yn sgil trafodaeth gyda'r Is-grŵp Busnes.

xx) Llongyfarchodd aelodau'r Grŵp Llywio pawb oedd yn rhan o lwyddiant y digwyddiad wythnos busnes.

xxi) Cytunwyd i ysgrifennu sector prifat y Grŵp Llywio yn gofyn am i un aelod ychwanegol fynd i gyfarfodydd yr is-grŵp.

xxii) Argymhellwyd bod y wybodaeth yn cael ei hystyried gan yr Is-grŵp Busnes ac adroddiad yn cael ei baratoi i'r Grŵp Llywio.

Tasgau:

b) Adrodd ar ddeilliannau'r rhaglen Llwyddo'n Lleol
Nia Swann — Yn chwarterol

c) Adrodd ar Raglen Waith Llwyddo'n Lleol
Nia Swann — cyn gynted â phosib

ch) Adrodd ar dullianu bosib o cefnogi busnesau yn ariannol
Sioned Williams /Colin Morris — cyfarfod mis Medi 2007

d) Dadansoddi'r sectorau sydd wedi cael cefnogaeth y Bwrdd Croeso
Colin Morris — cyfarfod Mis Medi 2007

dd) Ysgrifennu at gynrychiolwyr Sector Busnes Grŵp Llywio PEG yn gofyn am enwebiadau i'r Is-grŵp Busnes.
Ysgrifenyddiaeth — cyn gynted â phosib

e) Adrodd ar Raglen Cymorth Rhanbarthol Dewisol
Colin Morris — cyn gynted â phosib

f). Hysbysu'r aelodau am ddatblygiadau cynllun busnes peilot canolfan sgiliau galwedigaethol Meirion / Dwyfor
Sian Lloyd Roberts — cyfarfod Mis Medi 2007

06. <u>Cynrychiolwyr Partneriaeth Economiadd Gwynedd ar Bartneriathau eraill</u>

i). Cyflwynodd Dylan Griffiths yr adroddiad. Nododd bod newid mewn trefniadau aelodaeth ar gyfer y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, cadarnhad bod aelodau Grŵp Llywio PEG yn hapus i Bennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd fod y person cyswllt rhwng Partneriaeth Economaidd Gwynedd a Phartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

ii). Gofynnwyd am enwebiadau am aelod i gymryd lle Godfrey Northam ar Bartneriaeth Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Casgliadau:

iii). **Cadarnhaodd** aelodau eu **cefnogaeth** i Bennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd fod y person cyswllt rhwng Partneriaeth Economaidd

Gwynedd a Phartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.
Tasgau:

ff) Cadarnhau bod Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn rhoi ei chefnogaeth i Bennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd fod y person cyswllt rhwng Partneriaeth Economaidd Gwynedd a Phartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.
Ysgrifenyddiaeth cyn gynted â phosib

g) Enwebu aelod arall o Grŵp Llywio PEG i gymryd lle Godfrey Northam ar Bartneriaeth Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Aelodau cyn gynted â phosib

07. Ymateb Partneriaeth Economaidd Gwynedd i Ffamwaith Asesu Partneriaeth Gwynedd ar y Cyd

Trafodaeth:

i). Cyflwynodd Dewi Lewis yr adroddiad ar ymateb PEG i'r Fframwaith Asesu Partneriaeth.

Casgliadau:

ii). **Cytunodd** aelodau Grŵp Llywio PEG ar gynnwys yr adroddiad
Tasgau:
Dim

Rhan 2 – MATERION STRATEGOL

08. Europe Direct

Trafodaeth:

i) Estynnwyd croeso i David Joyner. Cafwyd cyflwyniad ar Ganolfan 'Europe Direct' Gogledd-orllewin Cymru oedd wrthi'n cael ei sefydlu ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Conwy. Nod Canolfan 'Europe Direct' Gogledd-orllewin Cymru oedd rhoi gwybodaeth a chyngor am yr Undeb Ewropeaidd (UE) i'r cyhoedd, asiantaethau, sefydliadau a busnesau lleol a bod yn ganolbwynt yn y rhanbarth ar gyfer digwyddiadau ac wrth godi proffil yr is-ranbarth. Byddai gwe pwrpasol yn cael ei sefydlu. Byddai'r Ganolfan yn un o chwe canolfan yng Nghymru.

ii) Datblygiadau hyd yn hyn: wedi sefydlu Grŵp Llywio; Safle'r George, Prifysgol Bangor wedi'i adnabod fel y lleoliad ar gyfer y Ganolfan, proses o benodi cydlynydd yn mynd rhagddi (rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y pecyn ariannu yn gyfyngedig ac nad oedd yr adnoddau oedd ar gael am gyllido mwy nag un swydd lawn amser ac y byddai llyfrgell y Brifysgol yn sicrhau bod ei staff hi ar gael i wneud gwaith sylfaenol);. Lansiad y Ganolfan wedi'i gynllunio ar gyfer 19 Medi yn CAST.

iii) Nodwyd pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth y byddai'r gwasanaeth ar gael a gweithio gyda phartneriaethau a rhwydweithiau oedd wedi ennill eu plwyf yn y rhanbarth er mwyn lledaenu gwybodaeth, darparu bwletinau rheolaidd a

thargedu grwpiau penodol i'w gwneud yn ymwybodol o'r wybodaeth oedd ar gael iddynt unwaith y byddai'r Ganolfan wedi'i sefydlu.

iv) Nodwyd pwysigrwydd y rhan arwyddocaol y byddai gwasanaeth llyfrgell y tair sir yn ei chwarae yn natblygiad y gwasanaeth gwybodaeth gan wneud defnydd o'r dechnoleg oedd ar gael i'w gwneud yn bosib i bobl gael at y wybodaeth ar draws yr is-ranbarth.

v) Nodwyd pwysigrwydd bod â chanolbwynt clir ar gyfer y Ganolfan, wrth sefydlu brand a datblygu rhaglen waith. Roedd angen gwaith ar lefel partneriaeth ehangach I sicrhau llwyddiant y Ganolfan. Cais gan Jan Jones wedi'i gefnogi i gydlynydd is-grŵp Ewropeaidd y Cynllun Gofodol (pan gaiff ei b/phenodi) i fod yn aelod o Grŵp Llywio 'Europe Direct'.

vi) Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod gan yr unigolyn a enwebwyd yn gydlynydd yr arbenigedd a'r sgiliau perthnasol y mae gofyn amdanynt, yn enwedig felly yng nghronfeydd sectorau'r UE ac yn natblygiadau polisïau'r UE, gan ychwanegu gwerth at y gwasanaethau a roddir gan yr awdurdodau lleol pan fo'r canolbwynt a'r adnoddau oedd ar gael yn cael eu targedu at Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Casgliadau:

vii) Croesawyd datblygiad y Ganolfan 'Europe Direct' gan y Grŵp Llywio

Tasgau:
ng). Anfon sylwadau Grŵp Llywio PEG at Grŵp Llywio 'Europe Direct'.
Ysgrifenyddiaeth cyn gynted â phosib

09. Materiol Gofodol

Trafodaeth:

i) Cyflwynodd Dylan Griffiths yr adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp Llywio am ddatblygiadau ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio yng nghyswllt Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd-orllewin Cymru, Astudiaeth Aneddiadau Allweddol Canolbarth Cymru a Chynlluniau Adfywio Ardal.

ii) Dywedodd Jan Jones bod Strategaeth Datblygu Gogledd-orllewin Cymru wedi ei arafu oherwydd angen am Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Casgliadau:

v) **Cytunwyd** ar gynnwys yr adroddiad a nodwyd hynny.

Tasgau:
Dim

10. Rhaglenni Ewropeaidd Cymru

Adroddiad Gweithgaredd

i) Dylan Griffiths gyflwynodd yr adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp Llywio am ddatblygiadau ers cyfarfod y Grŵp Llywio ar 20 Ebrill ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000-2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007-20013.

ii) Adroddwyd bod disgwyl elfen ERDF y Raglen Cydgyfeiriant 2007- 2013 gael ei chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd yn gynnar y mis nesaf. Roedd disgwyl y byddai'r Rhaglen ESF yn cael ei chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Medi.

iii) Dosbarthwyd adroddiad WEFO i aelodau ac fe'i cyflwynwyd gan Dylan Griffiths. Yn yr adroddiad nodwyd y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyswllt nifer o brosiectau yng Ngwynedd.

iv) Nodwyd bod WEFO yn parhau i weithio gyda phrosiectau Cymad i ddatrys rhai materion. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith yr oedd hyn yn ei chael ar rai o'r cymunedau lle'r oedd y prosiectau wedi'u lleoli a'r gobaith oedd y câi'r sefyllfa ei datrys yn fuan.

v) Nodwyd bod y Ganolfan Bywyd Gwledig, prosiect y Bala wedi bod yn cael problemau yn recriwtio i bedair swydd ac wedi ailhysbysebu swyddi bedair gwaith. Cytunwyd i gyhoeddi manylion y swyddi ar wefan Llwyddo'n Lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r swyddi a'r cyfleon yn yr ardal.

Proses casglu sylwadau ar Fframweithiau Strategol y Rhaglen Cydgyfeiriant

Trafodaeth:

vi). Dylan Griffiths gyflwynodd yr adroddiad. Amlinellai'r adroddiad sustem tri cham o ran codi ymwybyddiaeth a chael sylwadau o Wynedd yn ystod y broses ymgynghori ar Fframweithiau Strategol y Rhaglen Cydgyfeiriant.

Casgliadau:

vii). **Cytunwyd** ar sustem o gasglu sylwadau ar Fframweithiau Strategol y Rhaglen Cydgyfeiriant ac fe'i **mabwysiadwyd**.

Tasgau:

h). Cyhoeddi manylion cyfleon swyddi sydd ar gael yn y Ganolfan Bywyd Gwledig, y Bala ar wefan Llwyddo'n Lleol

Nia Swann cyn gynted â phosib

11. Datblygu'r Sector Gweithgaredd Awyr Agored yng Ngwynedd

Trafodaeth:

i) Estynnwyd croeso i Keith Robertson. Rhoddwyd cyflwyniad ar ddatblygu'r sector awyr agored yng ngogledd-orllewin Cymru, gwerth y sector i'r economi lleol, enghreifftiau o ymarfer da yn Ewrop ac America, a'r cyfleon i Wynedd.

ii) Adroddiad llafar Dafydd Iwan ar ddatblygu'r arfordir yn Llydaw. Dywedwyd bod yr ardal wedi gweld twf yn y boblogaeth a chynnydd mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) mewn amser byr, yn seiliedig ar ddatblygu'r sector arforol. Rhoddai canolfannau pwrpasol mewn ardaloedd arfordirol addysg

strwythurol i blant, cyfleon hamdden a chanolbwynt cymdeithasol ac economaidd yn y cymunedau hyn, yn gwarchod y boblogaeth trwy atal llif y bobl ifainc o'r ardal a diogelu'r iaith. Byddai adroddiad llawn ar yr ymweliad a'r casgliadau'n cael eu cyflwyno i PEG yn y dyfodol agos.

iii) Dywedwyd bod trafodaethau ar ddatblygu sector y gweithgareddau awyr agored yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda phartneriaid yn yr is-ranbarth, gan edrych ar y cyfleon ac wrth adnabod blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

iv) Nodwyd pwysigrwydd gwneud y to ifanc yn ymwybodol o'r cyfleon a'r angen am fodelau rôl yn y sector ; gan fanteisio ar Ragoriaeth Unigryw Gwynedd – iaith a diwylliant; ac ar ei gwneud yn haws i fynd i'r cefn gwlad ac i ardaloedd arfordirol.

Casgliadau:

v). **Cytunodd** aelodau'r Grŵp Llywio i dderbyn adroddiad ar gynlluniau a nodwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sector y gweithgareddau awyr agored yng Ngwynedd.

vi). **Cytunodd** aelodau'r Grŵp Llywio i dderbyn adroddiad llawn ar gyfer trafodaeth ar ganlyniad yr ymweliad ymchwiliol â Llydaw.

Tasgau:

i). Dosbarthu i aelodau'r Grŵp Llywio adroddiad ar gynlluniau a nodwyd i gefnogi gwaith datblygu sector y gweithgareddau awyr agored yng Ngwynedd

Ysgrifenyddiaeth **cyn gynted â phosib**

j). Dosbarthu i aelodau'r Grŵp Llywio ganlyniad yr ymweliad ymchwiliol â Llydaw

Ysgrifenyddiaeth **cyn gynted â phosib**

12. Unrhyw Fater Arall

i). Dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio – Dibynnu ar gyhoeddiad Fframweithiau Strategol ac agoriad Rhaglen Cydgyfeiriant yr ERDF – byddid yn rhoi gwybod i aelodau'r Grŵp Llywio cyn gynted â phosib.

ii). Y sefyllfa Ddiweddaraf yng nghyswllt Rheilffordd Dyffryn Conwy– adroddiad y Tad Deiniol

- Newid 'camarweiniol' yng nghofnodion 20 Ebrill, eitem 3iv). Cyfeiriwyd at yr oedi wrth ddatblygu isadeiledd Rheilffordd gogledd-orllewin Cymru ym Mangor / Caergybi a chodwyd y cwestiwn yng nghyfarfod o bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai cwyn yn erbyn Andrew Davies AC yn cael ei ystyried gan Brian Gibbons AC – nodwyd hynny. Nodwyd bod seidins ym Mlaenau Ffestiniog wedi gwerthu - Byddai'r Tad Deiniol yn anfon gwybodaeth i Gyngor Gwynedd.

C R Y N O D E B O ' R T A S G A U

a). Rhoi gwybod i Menna Jones am benderfyniad y Grŵp Llywio yng nghyswllt ei dewis yn Is-gadeirydd PEG.

Ysgrifenyddiaeth — cyn gynted â phosib

b). Adrodd ar ddeilliannau'r rhaglen Llwyddo'n Lleol

Nia Swann — Yn chwarterol

c). Adrodd ar Raglen Waith Llwyddo'n Lleol

Nia Swann — cyn gynted â phosib

ch). Adrodd ar dulliau bosib o cefnogi busneau yn ariannol

Sioned Williams /Colin Morris — September 2007 meeting

d). Adrodd ar **Ddadansoddi'r sectorau sydd wedi cael cefnogaeth y Bwrdd Croeso**

Colin Morris — cyfarfod Mis Medi 2007

dd) Ysgrifennu at gynrychiolwyr Sector Busnes Grŵp Llywio PEG yn gofyn i'r Is-grŵp Busnes.

Ysgrifenyddiaeth — cyn gynted â phosib

e) Adrodd ar Raglen Cymorth Rhanbarthol Dewisol

Colin Morris — cyn gynted â phosib

f). Hysbysu aelodau am ddatblygiadau cynllun busnes peilot canolfan sgiliau galwedigaethol Meirion / Dwyfor

Sian Lloyd Roberts — cyfarfod Mis Medi 2007

ff). Cadarnhau bod Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn rhoi ei chefnogaeth i Bennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd fod y person cyswllt rhwng Partneriaeth Economaidd Gwynedd a Phartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

Ysgrifenyddiaeth — cyn gynted â phosib

g). Enwebu aelod arall o Grŵp Llywio PEG i gymryd lle Godfrey Northam ar Bartneriaeth Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Aelodau — cyn gynted â phosib

ng). Anfon sylwadau Grŵp Llywio PEG i Grŵp Llywio 'Europe Direct'.

Ysgrifenyddiaeth — cyn gynted â phosib

h). Cyhoeddi manylion cyfleon swyddi sydd ar gael yn y Ganolfan Bywyd Gwledig, y Bala ar wefan Llwyddo'n Lleol

Nia Swann

i). Anfon adroddiad at aelodau'r Grŵp Llywio ar gynlluniau a adnabuwyd i gefnogi gwaith datblygu'r sector awyr agored yng Ngwynedd

Ysgrifenyddiaeth — cyn gynted â phosib

j). Anfon adroddiad at aelodau'r Grŵp Llywio ar yr ymweliad ymchwiliol â Llydaw

Ysgrifenyddiaeth cyn gynted â phosib